Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

# Cynnig i Ysgolion

**Cynnig Coleg Cambria**

| Pwnc | Cynulleidfa | Manylion y Sesiwn | Amcanion Dysgu |
|---|---|---|---|
| Helpu eich plentyn i ddarllen yn y Cyfnod Sylfaen | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 3-8 oed | **HD3E2CY011 Lefel: Mynediad - Dau Gwrs Achrededig Chwe wythnos o hyd (2 awr)**<br><br>1. Paru synau a llun mewn datblygu darllen cynnar.<br>2. Gweithgareddau ymarferol er mwyn gwahaniaethu rhwng synau gwahanol.<br>3. Rhythm barddoniaeth ac ailadrodd mewn datblygu darllen cynnar.<br>4. Creu gemau syml er mwyn helpu i gofio synau cychwynnol.<br>5. Defnyddio llyfrau lluniau a thestun disgwyliedig.<br>6. Creu amgylchedd darllen cadarnhaol/cyfforddus/diogel. | 1. Sefydlu ffyrdd o helpu eich plentyn i wahaniaethu rhwng synau.<br>2. Caffael gwybodaeth am sut y gellir defnyddio lluniau helpu eich plentyn i ddatblygu sgiliau darllen cynnar.<br>3. Defnyddio adnoddau syml i gefnogi datblygiad darllen eich plentyn gartref. |

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu sgiliau cyfathrebu i gefnogi eich plentyn â'u darllen. | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 3-8 oed | **HD3E3CY020 Lefel: Mynediad - Tri Chwrs Achrededig Chwe wythnos o hyd (2 awr)**<br>1. Mae dysgu darllen yn hwyl - Gwneud rhieni yn ymwybodol o ddulliau amrywiol o addysgu darllen.<br>2. Pwysigrwydd profiadau cyd-ddarllen gyda'ch plentyn.<br>3. Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd sgiliau dilyniant a chof wrth ddysgu darllen.<br>4. Paratoi i greu llyfr gyda phlentyn. Rhannwch eich llyfr gyda'ch plentyn a nodwch arsylwadau.<br>5. Strategaethau i gefnogi eich plentyn yn ystod amser cyd-ddarllen. Rhannwch resymau pam bod cyd-ddarllen mor bwysig.<br>6. Edrychwch ar adnoddau gwahanol i gefnogi datblygu darllen cynnar. | 1. Hyder i rannu llyfrau i helpu eich plentyn i ddatblygu sgiliau darllen.<br>2. Caffael rhestr o strategaethau i helpu plant ddeall yr hyn sy'n cael ei ddarllen.<br>3. Caffael technegau cwestiynu er mwyn cadarnhau dealltwriaeth eich plentyn am stori benodol. |

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Helpu eich plentyn ddatblygu eu darllen yn y cyfnod sylfaen uwch. | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 5-8 oed | **HD31CY023 Lefel: Un - Un Cwrs Achrededig Chwe wythnos o hyd (2 awr)**<br>1. Bod yn ymwybodol o ddulliau amrywiol o addysgu darllen.<br>2. Deall cynllun Jolly Phonics - Gwybodaeth ffonig a Gwylio a Dweud<br>3.Ystyried rhwystrau i ddysgu<br>- Deall pam fod darllen i blant mor bwysig<br>- Darganfod yr ystod eang o lyfrau plant<br>4. Deall sut mae plant yn dysgu darllen a defnyddio'r strategaethau/dulliau i ddarllen a ddefnyddir yn yr ysgol.<br>5. Bod yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd darllen ym mywyd bob dydd.<br>6. Defnyddio gemau i helpu i ddatblygu sgiliau darllen | 1. Hyder wrth gefnogi eich plentyn gyda strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn annibynnol.<br>2. Gallu gofyn cwestiynau i gefnogi dealltwriaeth eich plentyn i ddarllen cwestiynau caeedig ac agored.<br>3. Caffael sgiliau i gefnogi eich plentyn gyda sgiliau darllen lefel uwch e.e. casgliad<br>4. Defnyddio eich gwybodaeth i greu adnoddau i gefnogi datblygiad eich plentyn i adnabod geiriau, brawddeg a chyd-destun. |

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Helpu eich plentyn i ddatblygu sgiliau rhifedd drwy chwarae. | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 5-8 oed | **HD4E3CYO45 Lefel: Mynediad - Tri Chwrs Achrededig Chwe wythnos o hyd (2 awr)**<br>1. Gweithgareddau ymarferol i helpu eich plentyn i gofio bondiau rhif.<br>2. Rhannu sut mae ysgolion yn addysgu pedwar rheol rhif.<br>3. Gweithgareddau ymarferol y gellir eu defnyddio i helpu plant gydag adio ym mywyd bob dydd.<br>4. Gweithgareddau ymarferol y gellir eu defnyddio i helpu plant gyda thynnu ym mywyd bob dydd.<br>5. Gweithgareddau ymarferol y gellir eu defnyddio i helpu plant gyda lluosi ym mywyd bob dydd.<br>6. Gweithgareddau ymarferol y gellir eu defnyddio i helpu plant gyda rhannu ym mywyd bob dydd. | 1. Yn hyderus yn cefnogi eich plentyn i ddysgu bondiau rhif.<br>2. Yn hyderus i gefnogi eich plentyn gyda'u gwybodaeth a defnydd o adio a thynnu.<br>3. Yn hyderus i gefnogi eich plentyn gyda'u gwybodaeth a defnydd o luosi a rhannu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu eich gwybodaeth a sgiliau i gefnogi plentyn gyda'u gwelliant mathemateg. | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 5-8 oed | **GB61WE032 Lefel: Un - Cwrs Achrededig Chwe wythnos o hyd (2 awr)**<br>1. Rhwystrau i ddysgu'r eirfa fathemategol<br>2 Mesur<br>3. Siapiau 2D, Siapiau 3D - Iaith Mathemateg<br>4. Gosod gwerth adio a thynnu<br>5. Trafod rôl gemau.<br>5 Lluosi. Ysgrifennu Rhif a Rhannu<br>6. Defnyddio'r 4 rheol<br>- | 1. Gwybodaeth gynyddol am y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu gwaith rhif gyda'ch plentyn.<br>2. Gwybodaeth gynyddol am y dull o ran mathemateg a ddefnyddir yn yr ysgol gyda'r pedwar rheol rhif.<br>3. Deall iaith fathemategol sylfaenol ar gyfer rhif yn cynnwys siâp, gofod a mesur. |

**Cynnig gan Groundwork**

| Pwnc | Cynulleidfa | Manylion y Sesiwn | Amcanion Dysgu |
|---|---|---|---|
| Welintons yn y coed | Rhieni a'u plant, o dan 5 oed neu yng Nghyfnod Allweddol 1. | Mae dros 6 sesiwn dwy awr o hyd wedi'u cynllunio sy'n ymwneud â llyfr plant (e.e. *The Gruffalo, Stick Man, Very Hungry Caterpillar*). Nod Welintons yn y Coed yw gwella llythrennedd a hyder teuluoedd yn yr awyr agored a chwarae naturiol. Bydd yr holl weithgareddau yn y sesiynau yn hawdd i deuluoedd eu hail-greu gartref am gost isel iawn neu ddim cost. | • Gwella llythrennedd teuluoedd<br>• Magu hyder yn yr awyr agored a chwarae naturiol |
| Gwella eich Sgiliau TG | Rhieni a Gofalwyr | Dros 8 sesiwn, nod y cwrs yma yw gwella sgiliau TG dysgwyr, ymdrin ag elfennau sylfaenol TG, aros yn ddiogel ar-lein i chi a'ch plentyn, defnyddio e-bost, cyfathrebu trwy gyfrwng fideo, prosesu geiriau a thaenlenni sylfaenol. | • Llythrennedd a chyfathrebu digidol gwell i'r teulu<br>• Sgiliau TG gwell i rieni |
| Arbed arian ar eich biliau ynni | Rhieni a Gofalwyr | Dros sesiwn 2 awr o hyd, deall sut i arbed arian ar filiau ynni a mesurau ymarferol y gellir eu defnyddio i leihau'r ynni a ddefnyddir. | • Gwella dealltwriaeth ymarferol o sut i leihau biliau ac arbed arian |
| Lles yn yr awyr agored | Rhieni a Gofalwyr | Dros chwe sesiwn dwy awr o hyd, bydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau awyr agored yn eu cymunedau lleol, yn cynnwys garddio cymunedol, celfyddydau natur a chrefftau, teithiau cerdded treftadaeth, arolygon bywyd gwyllt sylfaenol a chreu ardaloedd blodau gwyllt; ymysg pethau eraill. | • Gwella gwybodaeth am yr ardal leol a gweithgareddau y gall rhieni a gofalwyr eu gwneud gyda'u plant yn yr awyr agored ar gost isel iawn neu'n rhad ac am ddim.<br>• Gwella dealltwriaeth o sut y gall yr awyr agored wella lles. |
| Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | Rhieni a Gofalwyr | Mae'r cymhwyster 6 awr o hyd yma'n rhoi gwybodaeth i ddysgwyr i adnabod amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl, sut i gychwyn sgwrs gefnogol a phryd a sut i gyfeirio unigolion i gael cymorth proffesiynol priodol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod a rheoli straen ac yn deall effaith camddefnyddio sylweddau. | • Gwybod beth yw iechyd meddwl, pam fod pobl yn datblygu cyflyrau iechyd meddwl a rôl Swyddog Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl.<br>• Gwybod sut i ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i unigolyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sydd yn arddangos cyflwr iechyd meddwl.<br>• Gwybod sut i adnabod amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl. |
| Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid | Rhieni a Gofalwyr | Mae’r cymhwyster yma’n addas i unrhyw un sydd yn dod i gyswllt â phlant megis rhieni, gofalwyr, athrawon, arweinwyr grwpiau ieuenctid ac oedolion ifanc. Dyluniwyd y cymhwyster yma gyda phlant a phobl ifanc mewn golwg, ac mae’n ymdrin â meysydd megis iselder, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta a bwlio, a bydd yn darparu gwybodaeth a sgiliau i adnabod cyflwr iechyd meddwl pobl, cychwyn sgwrs a darparu cefnogaeth ac arweiniad i gymorth proffesiynol. | • Gwybod beth yw iechyd meddwl, pam fod pobl ifanc yn datblygu cyflyrau iechyd meddwl a rôl Swyddog Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl.<br>• Gwybod sut i adnabod amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl.<br>• Deall y cynllun gweithredu cymorth cyntaf ar gyfer iechyd meddwl a gallu ei weithredu |
| Cymorth Cyntaf Pediatrig | Rhieni a Gofalwyr | Mae’r cymhwyster 6 awr o hyd yma wedi’i ddylunio i ddysgwyr sydd â chyfrifoldeb am ofal plant a babanod ac mae’n darparu gwybodaeth a sgiliau i ddelio ag amrywiaeth o gyflyrau a digwyddiadau cymorth cyntaf paediatreg.<br>Pwrpas y cymhwyster yma yw bod y dysgwr yn caffael y wybodaeth a gallu ymarferol sydd ei angen i ddelio ag ystod o sefyllfaoedd cymorth cyntaf paediatreg. | • Deall rôl a chyfrifoldebau cymhorthydd cyntaf paediatreg<br>• Gallu rhoi cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd yn anymatebol ac yn anadlu’n iawn<br>• Gallu rhoi cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd yn anymatebol a ddim yn anadlu’n iawn<br>• Gallu rhoi cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd yn tagu<br>• Gallu rhoi cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd yn gwaedu'n allanol<br>• Gallu rhoi cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd yn dioddef o sioc |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Deall sut i weinyddu cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd wedi cael ei frathu, ei bigo ac sydd â mân anafiadau.<br>• |

**Cynnig Partneriaeth Parc Caia (gweler y llyfryn ychwanegol hefyd)**

| Pwnc | Cynulleidfa | Manylion y Sesiwn | Amcanion Dysgu |
|---|---|---|---|
| Ymlacio gyda Gwlân | Ar gyfer rhieni a phlant CA 2 | **Er enghraifft, gellir ei gynnig fel:**<br>• Gweithgaredd dan do neu du allan<br>• Hwyl gyda Chnu - sesiwn blasu unigryw 2 awr o hyd lle gall yr oedolyn a phlentyn greu darn o gnu i'w gymryd gartref.<br>• Gweithio gyda gwlân - prosiect pythefnos o hyd, pan gaiff ffelt ei greu un wythnos a'i droi mewn i rywbeth â phwrpas penodol yr wythnos ganlynol.<br>• Sesiwn fwy trylwyr gyda gweithgareddau estynedig.<br>• Gweithgaredd dilynol i ymweld â fferm, neu gynhyrchwr yn dod â defaid i'r ysgol<br>• Rhan o Ysgol Goedwig neu ymweliad oddi ar y safle (gyda gofod ar fwrdd ar gael)<br>• Creu ffelt gyda rhieni, gan ei gysylltu â phrosiect traws cwricwlaidd - hanes, celf, dweud stori, gwyddoniaeth ac ati. | • Yn amrywio yn ôl gweithgaredd ond mae'r cyfan wedi'i gynllunio ac wedi'i recordio ar ddechrau'r cwrs.<br>• Gellir trafod amcanion sy'n benodol i ysgol ar y cychwyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Dosbarth cyfan neu brosiect ysgol pan mae'r broses o wneud ffelt yn creu arddangosfa unigryw sy'n gwasanaethu pwrpas penodol - dathliad, atgof, ailwampio neu gyfrannu at ddigwyddiad cymunedol ehangach.<br>• Rhan o brosiect crefftau treftadaeth hirach, gan edrych ar grefft sy'n seiliedig ar wlân gwahanol bob wythnos (gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau)<br>• Dysgu i'r teulu yn gysylltiedig â gweithgaredd cymunedol ehangach - hanes lleol, *Greening Pastures*, prosiectau Groundwork, amgueddfa, theatr ac ati | |

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

**Xplore! Cynnig Y Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth**

| Pwnc | Cynulleidfa | Manylion y Sesiwn | Amcanion Dysgu |
|---|---|---|---|
| Cemeg y Gegin | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 7-11 oed.<br><br>Mae angen lleoliad sydd â mynediad at sinc cegin. | Cyfanswm o 4 awr (4x 1-awr a ffafrir)<br><br>1. Creu sleim a glŵp blawd corn. Trafod cyflyrau sylwedd (soled, hylif, nwyon)<br>2. Arbrofi gyda finegr a soda pobi yn cynnwys gwneud llosgfynyddoedd a diffodd fflam. Trafod y triongl tân.<br>3. Ymchwilio i pH gan ddefnyddio dŵr bresych coch fel dangosydd. Profi pH eitemau'r aelwyd fel past dannedd, sebon, llaeth, te, coffi, lemonau ac ati.<br>4. Mwy o arbrofion mwy manwl yn cynnwys cromatograffeg Skittles a thynnu DNA o ffrwythau. | Hyderus yn cynorthwyo plant gydag ymchwiliadau gwyddoniaeth.<br><br>Gallu dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig (dulliau arbrofol) i roi cynnig ar weithgareddau gwyddoniaeth.<br><br>Gwybodaeth gynyddol am egwyddorion gwyddonol sylfaenol.<br><br>Gallu trafod canlyniadau arbrofion ar lafar a chyfleu casgliadau gyda'r grŵp.<br><br>Yn gyfarwydd ac yn hyderus i ddefnyddio cyfarpar gwyddonol sylfaenol. |
| Rhaglennu cyfrifiadurol | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 7-11 oed<br><br>Mae angen lleoliad da gyda mynediad da at blygiau. | Cyfanswm o 6 awr (4x 1.5-awr a ffafrir)<br><br>1. Cyflwyniad sylfaenol i feddalwedd llusgo a gollwng gan ddefnyddio rhaglen 'Scratch'.<br>2. Meddalwedd llusgo a gollwng i raglennu cerbyd di-yrrwr. | Hyder yn cynorthwyo plant gyda sgiliau cyfrifiadura sylfaenol.<br><br>Gallu codio robot gyda chyfarwyddiadau syml.<br><br>Deall swyddogaeth y cod maent yn ei greu a gallu datrys problemau pan mae'r angen yn codi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3. Cyflwyno synwyryddion, defnyddio robotiaid LEGO EV3 i yrru o amgylch creigiau.<br>4. Codio mwy manwl er mwyn rhaglennu'r robotiaid LEGO EV3 i gwblhau amrywiaeth dasgau. | Gwybodaeth ynglŷn â pham mae synwyryddion yn ddefnyddiol a gallu eu defnyddio'n llwyddiannus i gwblhau tasgau. |
| Mathemateg i bawb | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 5-8 oed | Cyfanswm o 4 awr (4x 1-awr a ffafrir)<br>1. Adnabod ceiniogau, chwarae rôl yn y gymdeithas adeiladu, cyfrifiadau arbed arian poced, gemau arbed v gwario.<br>2. Siapiau 2D a 3D, dilyniant rhifau, cydbwyso pwysau.<br>3. Amcangyfrifo cost siopa bwyd, cynllunio prydau bwyd o fewn cyllideb, a defnyddio sgiliau digidol i ymchwilio i gynnwys siwgr a braster ein hoff fwydydd, mesur y siwgr mewn diodydd poblogaidd.<br>4. Awgrymiadau i aelwydydd arbed arian, posau rhifedd, triciau mathemateg "hud" rhyngweithiol. | Hyder i gynorthwyo plant y cyfnod sylfaen gyda'r rhifedd sy'n cael sylw yn yr ysgol<br>Gallu cynnal cyfrifiadau rhifyddol sylfaenol a gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiannell pan fo angen.<br>Gwybod sut i wneud arbedion a sut i gyllidebu'n llwyddiannus.<br>Mwy o ddiddordeb i gymryd rhan mewn cwrs sgiliau rhifedd hanfodol achrededig. |
| Dal i fyny gyda'r plant | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 5-12 oed | Cyfanswm o 4 awr (4x 1-awr a ffafrir) | Deall y pynciau poblogaidd ymysg ieuenctid heddiw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dim ond ar gael yn Xplore!<br><br>1. Gwyddorau bwyd Sesiwn ryngweithiol sy'n gysylltiedig â thyfu hydroponig ac o ble daw ein bwyd.<br>2. Gwyddorau amgylcheddol Sesiwn ryngweithiol sy'n gysylltiedig ag effeithiau newid hinsawdd a sut y gallwn ni edrych ar ôl yr aer, y ddaear a'r moroedd yn well.<br>3. *Escape Room*. Datblygu eich sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu. Datryswch y posau i ddianc!<br>4. Gofod. Sesiwn ryngweithiol sy'n dangos y gyrfaoedd gwahanol sy'n cael eu cefnogi gan raglen ofod y DU. Pyrth gofod ymchwiliol lloerenni, telesgopau a'r peiriant crwydro ar y blaned Mawrth (*Mars Rover*) | Gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaoedd/astudio gwyddoniaeth presennol.<br><br>Sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm a datrys problemau gwell.<br><br>Hyder i siarad gyda phobl ifanc am feysydd gwyddoniaeth/technoleg sydd o ddiddordeb iddynt.<br><br>Gwybod lle i chwilio am ffynonellau cywir a dibynadwy o wybodaeth.<br><br>Rhagor o ddiddordeb i fynd â'u hastudiaethau ymhellach trwy gyrsiau ACL partner eraill. |
| Arbed Ynni, Arbed Arian, ac Arbed y Blaned! | I oedolion sydd â phlant / wyrion a wyresau 7-11 oed | Cyfanswm o 6 awr (4x 1.5-awr a ffafrir)<br><br>1. Beth yw'r gylchred garbon? Trafod effaith carbon a'i symudiad ar y blaned.<br>2. Beth yw fy ôl-troed carbon? Cyflwyno pedwar piler y cynllun datgarboneiddio a thrafod dal carbon. | Deall ein dibyniaeth ar garbon, lle mae i'w ganfod a'i effaith.<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o ôl-troed carbon a'r camau y gellir eu cymryd i symud tuag at di-garbon.<br><br>Datblygu dealltwriaeth bersonol o gynhyrchiant bwyd, labelu bwyd a sut y gallwn ni wneud dewisiadau prynu gwahanol er mwyn lleihau ein heffaith. |

Sesiwn dwy awr sy’n rhoi syniadau ac adnoddau i rieni helpu eu plentyn gartref gyda mathemateg.



| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3. Milltiroedd bwyd. Beth yw’r broblem? Beth allwn ni ei wneud?<br>4. Dinas carbon. Sut allwn ni leihau’r ynni a ddefnyddir tra’n parhau i wneud popeth rydym ei angen? | Gallu defnyddio gwybodaeth a sgiliau mewn senarios ymarferol er mwyn arbed ynni, ac felly arian. |

**Cynnig Addysg Oedolion Cymru**

| Pwnc | Cynulleidfa | Manylion y Sesiwn | Amcanion Dysgu |
|---|---|---|---|
| Helpu’ch plentyn gartref gyda mathemateg/rhifedd. | Rhieni/gofalwyr/neiniau a theidiau’r blynyddoedd cynnar<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blynyddoedd 3 a 4<br><br>Blynyddoedd 5 a 6 | Sesiwn dwy awr sy’n rhoi syniadau ac adnoddau i rieni allu helpu eu plentyn gyda mathemateg gartref. | Magu hyder rhieni/ofalwyr wrth helpu eu plant gyda mathemateg gartref. |

Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Deall rhifedd a sut i'w ddefnyddio mewn bywyd bob dydd.** | Unrhyw oedolyn | Cwrs 8 awr, 4 sesiwn 2 awr | Mesuriadau (ar gyfer prynu carpedi neu baent)<br>Amser (amserlenni/hedfan)<br>Canrannau (eitemau ar sêl / TAW)<br>Cymarebau a chyfrannedd (ryseitiau ar gyfer x o bobl)<br>Arian (bargeinion gorau/cyfrifo cyflogau/biliau) |